Gwneud sŵn ym myd natur

Trosolwg

Mae amgylcheddau naturiol yn darparu cyd-destun cyffrous ar gyfer archwilio lleferydd ac iaith. Rhowch gyfleoedd i blant ddefnyddio eu lleisiau mewn ffyrdd newydd a diddorol yn yr awyr agored.



Gweithgareddau

Gall defnyddio ein lleisiau mewn mannau awyr agored helpu i ddatblygu hyder i siarad. Dewiswch rigwm cyfarwydd, e.e. Mi welais jac-y-do, yna dewch o hyd i fan yn yr awyr agored lle na fyddwch yn tarfu ar bobl eraill. Adroddwch y rhigwm gyda'r plant gan ddefnyddio lleisiau sibrwd, lleisiau siarad a lleisiau gweiddi nerth eich pen. Mae cael rhyddid i weiddi'n uchel yn gyfle prin i blant, a gall fod yn llawer o hwyl. Rhowch gynnig ar y gweithgaredd hwn mewn gwahanol ardaloedd i weld sut y mae'r sŵn yn newid.

Offer

- Man addas lle na fydd neb yn poeni eich bod yn swnllyd!
- Baton arweinydd (dewisol)

Cwestiynau allweddol

Allwch chi ei sibrwd?
Allwch chi ei weiddi?
Pa mor uchel gallwch chi weiddi?
Pa mor dawel gallwch chi sibrwd?
A yw'r sŵn yn newid yma?

Deilliannau dysgu

- Chwarae – chwarae ag acwsteg a dynameg a dysgu am derfynau ein lleisiau
- Llythrennedd – odlau, rhythmau, ailadrodd a phatrymau lleferydd

Symud y dysgu yn ei flaen

Defnyddiwch eich braich neu'ch baton i 'arwain' y plant. Mae dal y baton yn uchel yn golygu lleisiau gweiddi, ac mae dal y baton yn isel yn golygu lleisiau sibrwd. Gallech chwarae â'r cyflymder yn ogystal â lefel y sŵn er mwyn gwneud y gweithgaredd yn fwy cymhleth. Trefnwch ardal berfformio er mwyn annog y plant i chwarae â synau.